Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES

BMA Cymru Wales

17 Chwefror 2022

Annwyl gyfeillion,

Prosiectau gwella ansawdd a thaliadau

Yn dilyn cyhoeddi'r cytundeb contract ar 28 Hydref 2022, roeddem am gadarnhau bod yr holl brosiectau gwella ansawdd bellach ar eu ffurfiau terfynol ac y cytunwyd arnynt. Mae rhagor o wybodaeth am bob un o'r tri phrosiect i'w gweld yma. Mae manyleb y prosiect Ymddygiadau nad ydynt yn Iach wedi ei hamgáu ynghyd â thempledi adrodd y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Dyrennir pwyntiau i'r tri phrosiect fel a ganlyn:

Prosiect Data ar weithgarwch	35 o bwyntiau
Prosiect Anadlydd gwyrdd	35 o bwyntiau
Prosiect Ymddygiadau nad ydynt yn iach	100 o bwyntiau
Cyfanswm	**170 o bwyntiau**

Mae'n orfodol i bractisau sy'n cymryd rhan yn y broses gwella ansawdd gwblhau pob un o'r tri phrosiect.

Fel y nodwyd gennym i'r proffesiwn yr hydref diwethaf, rydym yn cymryd camau i wella'r ffordd y caiff prosiectau gwella ansawdd eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u hymgorffori ym maes gwella ansawdd drwy arfer dull Penawdau'r Telerau. Rydym hefyd yn ailunioni'r gwaith o gyflawni gwella ansawdd â chylch blwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2024. Felly, bydd y cylch gwella ansawdd presennol yn rhedeg hyd at 31 Mawrth 2024. Cytunwyd ar drefniadau ar gyfer cyllid pontio ar gyfer y cyfnod hwn, sy'n lleihau unrhyw effaith ariannol negyddol ar bractisau. Maent wedi'u nodi isod.

Amserlen taliadau uchelgais a thaliadau cyflawniad

Cafodd taliadau uchelgais ar gyfer y cylch gwella ansawdd estynedig eu hatal dros dro ar gyfer mis Tachwedd, mis Rhagfyr a mis Ionawr er mwyn rhoi cyfrif am y gordaliad a wnaed ym mis Hydref 2022 yn seiliedig ar sgôr o 510 o bwyntiau yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Gwella.

Bydd taliadau uchelgais yn ailddechrau ym mis Chwefror 2023. Gwneir y taliadau drwy gyfrif 70% o'r 170 o bwyntiau cyflawniad sydd ar gael ar gyfer gwella ansawdd wedi'i rhannu â 12 a'i luosi â gwerth Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar 1 Hydref 2022.

Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cysoni'r taliadau sy'n ddyledus yn erbyn y taliad gwirioneddol a wnaed er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r darpariaethau yng Nghyfarwyddiadau'r Datganiad ar Hawlogaeth Ariannol.

Bydd practisau yn parhau i gael taliad uchelgais misol ar gyfer y flwyddyn gwella ansawdd o 1 Hydref 2023 i 21 Mawrth 2024 o'r un swm misol â'r taliadau a wnaed ar gyfer y flwyddyn gwella ansawdd o 1 Hydref 2022 i 30 Medi 2023.

Er mwyn cwrdd â disgwyliadau presennol o ran llif arian, bydd gan bractisau hawl i gael taliad uchelgais mantoli interim yn seiliedig ar 170 o bwyntiau, a thynnu'r taliadau uchelgais a wnaed eisoes, ar 31 Rhagfyr 2023. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r contractwr ddarparu tystiolaeth ei fod, ar 30 Medi 2023, yn cymryd rhan yn y prosiectau gwella ansawdd a rhaid iddo gadarnhau ei fod yn bwriadu cwblhau'r tri phrosiect gwella ansawdd erbyn 31 Mawrth 2024.

Gan fod y cylch gwella ansawdd ar gyfer y cyfnod pontio hwn yn rhedeg am 18 mis, bydd taliadau'n seiliedig ar 170 o bwyntiau dros 12 mis, ac wedyn 85 o bwyntiau dros y 6 mis sy'n weddill. Caiff taliad cyflawniad mantoli terfynol yn seiliedig ar 85 o bwyntiau, a thynnu'r taliadau uchelgais a wnaed eisoes, ei dalu ar ddiwedd mis Mehefin 2024 ar sail cyflawniad gwirioneddol ar 31 Mawrth 2024.

Ni fydd hawl gan gontractwyr nad oedd wedi cwblhau prosiectau gwella ansawdd fel rhan o gylch 2021/22 y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Gwella i gael taliadau uchelgais gwella ansawdd, ond bydd ganddynt hawl i gael taliad cyflawniad llawn ar ôl cyflwyno tystiolaeth eu bod, ar 31 Mawrth 2024, wedi cwblhau pob un o'r tri phrosiect gwella ansawdd. Gwneir y taliad ar 30 Mehefin 2024 ar ôl i'r bwrdd iechyd ddilysu'r dystiolaeth.

Os nad oes modd i bractisau roi tystiolaeth eu bod wedi cwblhau'r tri phrosiect gwella ansawdd, ni wneir taliad cyflawniad ac mae hawl gan y bwrdd iechyd lleol i adennill unrhyw daliad cyflawniad interim a wnaed ar 31 Rhagfyr 2023 ac unrhyw daliadau uchelgais a wnaed.

Mae'r diagram yn Atodiad A yn dangos yr amserlen ar gyfer gwneud taliadau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â thîm gofal sylfaenol eich bwrdd iechyd.

Yn gywir,

Paul Casey

Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned

Llywodraeth Cymru



Lynne Joannou

Cadeirydd

Grŵp Gweithredu



Gareth Oelmann

Cadeirydd

Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

Atodiad A

Taliadau'r Fframwaith Gwella Ansawdd (QIF) 2022/24